FFURFLEN RHW35

HYSBYSIAD O FWRIAD I WNEUD CAIS AM ORCHYMYN SY'N ARDDODI CONTRACT SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDEDIG

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan baragraff 1(1) o Atodlen 7 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord yn bwriadu gwneud cais i'r llys (o dan adran 116 o'r Ddeddf honno) am orchymyn sy'n arddodi contract safonol cyfnodol ("contract safonol ymddygiad gwaharddedig") oherwydd ymddygiad gwaharddedig (fel y'i disgrifir gan adran 55 o'r Ddeddf honno).

Rhan A: Landlord	**Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract**
Enw: Cyfeiriad:	Enw(au):

Rhan C: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan D: Hysbysiad o Fwriad i Wneud Cais am Orchymyn sy'n Arddodi Contract Safonol Cyfnodol ("Contract Safonol Ymddygiad Gwaharddedig")
Mae'r landlord yn hysbysu ei fod yn bwriadu gwneud cais i'r llys am orchymyn yn arddodi contract safonol cyfnodol ("contract safonol ymddygiad gwaharddedig") o dan adran 116 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ar y sail eich bod chi, ddeiliad y contract, yn torri adran 55 o'r Ddeddf honno (ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall). Dyma fanylion yr ymddygiad y ceisir gorchymyn mewn cysylltiad ag ef: *Rhowch y manylion yn glir.* Ni chaniateir i achos gael ei ddwyn **cyn** [*dyddiad*] …… *Sylwer: Caiff y dyddiad penodedig fod y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwn i'r deiliad contract.* Ni chaniateir i achos gael ei ddwyn **ar ôl** [*dyddiad*] …… *Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod yn ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i'r deiliad contract.*

Rhan E: Llofnod	
Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:	Dyddiad:
……	……